Mae'r wefan hon yn defnyddio cwcis.

Rhagor o wybodaeth Dim problem

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David




Cymru

# *Dylai'r llywodraeth ganolbwyntio mwy ar agweddau at iaith, yn ôl ymchwil Prifysgol Bangor*

*Mae data o arolwg defnydd iaith y Gymraeg yn dangos cyfraddau isel o ddefnydd iaith ymhlith oedolion Cymraeg eu hiaith*

gan **Meilyr Jones**
dau fis yn ôl

Rhannu




**Mae Meilyr Jones yn rhan o dîm ymchwil agweddau iaith Prifysgol Brifysgol. Mae'n dweud y gallai gorddibyniaeth y llywodraeth ar addysg fel cyfrwng adfywio iaith arwain at sefyllfa debyg i'r un sy'n wynebu'r Wyddeleg...**

Mae data o arolwg defnydd iaith y Gymraeg yn dangos cyfraddau isel o ddefnydd iaith ymhlith oedolion Cymraeg eu hiaith. Mae hyn yn faes penodol o bryder ym mholisïau'r llywodraeth gan fod strategaeth Cymraeg 2050 yn anelu at ddyblu canran y defnydd a wneir o'r Gymraeg yn ddyddiol.

Adlewyrchir yr amharodrwydd i ddefnyddio'r Gymraeg a ddarlunnir yma hefyd yn y gostyngiad mewn trosglwyddiad teuluol rhwng cenedlaethau, sef o bosib, y ffactor unigol pwysicaf  i oroesiad iaith. Mae ymchwil wedi amlygu y gallai gorddibyniaeth y

Poblogaidd

1 Breuddwyd mam i "ysgrifennu llyfr am ei thaith galar" i helpu eraill

2 Beti a'i Phobol yn dathlu'r deugain

3 Posibilrwydd o gau llyfrgell o lyfrau natur yn "rhan o bryder ehangach"

4 "Lle mae'r ddynoliaeth?" medd un o Libanus sy'n byw yng Nghymru

5 Fy Hoff Gân... gyda Lleuwen




Swyddi

llywodraeth ar addysg fel cyfrwng adfywio iaith, heb fentrau i fynd i'r afael â defnydd iaith, yn enwedig yn y teulu, arwain at sefyllfa debyg i'r un sy'n wynebu'r Wyddeleg.

**Pwysigrwydd agweddau**

Rhaid i adfywio iaith leiafrifol gynnwys newid mewn agweddau at iaith. Er bod y llunwyr polisi y tu ôl i strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yn nodi "normaleiddio canfyddiad a defnydd" fel her allweddol i fynd i'r afael â hi, nid yw strategaeth Cymraeg 2050 yn trafod yr angen i wella agweddau fel y cyfryw. Serch hynny, mae agweddau'n chwarae rhan ganolog mewn cynnal iaith yn llwyddiannus, a dyna pam y credwn fod rhaid rhoi mwy o bwyslais ar wella agweddau at yr iaith yng Nghymru.

Mae ein hymchwil yn edrych ar y berthynas rhwng agweddau iaith echblyg (explicit) ac ymhlyg (implicit) a chysylltiad â'r Gymraeg yng ngogledd-orllewin Cymru. Rydym wedi gwneud hyn trwy gymharu data am gefndir siaradwyr o'r Holiadur Iaith a Chefndir Cymdeithasol (*Language and Social Background Questionnaire*) â chanlyniadau'r Raddfa Agweddau at Ieithoedd a Thasg Cysylltiadau Ymhlyg (*Attitudes towards Languages (AToL) Scale and an Implicit Association Task.*)

**Cyfraniad cysylltiad cynnar**

Dengys ein canlyniadau fod gan siaradwyr agweddau mwy ffafriol tuag at y Gymraeg na'r Saesneg. Felly, yn groes i'r dirwedd bresennol o ostyngiad mewn defnydd a chysylltiad â'r Gymraeg yng Nghymru, mae agweddau echblyg siaradwyr dwyieithog tuag at y Gymraeg yn parhau'n gadarnhaol. Ar ben hynny, mae gan siaradwyr sydd â mwy o gysylltiad â'r Gymraeg mewn oedran ysgol gynradd agweddau mwy ffafriol tuag at y Gymraeg na'r rhai â llai o gysylltiad, sy'n dueddol o ffafrio'r Saesneg. Mae'r canlyniadau hyn yn dangos pwysigrwydd cysylltiad ag iaith wrth feithrin agweddau cadarnhaol, ymhlyg tuag at y Gymraeg.

Mae ein canlyniadau'n awgrymu y gallai cysylltiad cynnar wneud mwy na rhoi'r sgiliau iaith angenrheidiol i blant eu defnyddio – swyddogaeth y gall addysg, hefyd, ei chyflawni'n llwyddiannus. Yr hyn y gall cysylltiad cynnar ei ddarparu y tu hwnt i sgiliau iaith yw modelu defnyddio'r iaith Gymraeg mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau cymunedol. Mae hyn yn cyd-fynd ag ymchwil mewn meysydd eraill – megis gweithgarwch corfforol a phatrymau cysgu – ble mae modelu ymddygiad yn chwarae rhan sylfaenol wrth ddylanwadu ar ymddygiad plant.

**Goblygiadau**

Mae'r diffyg modelu sy'n rhan o brofiad rhai plant felly yn arbennig o berthnasol wrth ystyried cyd-destun y dirywiad mewn cysylltiad â'r Gymraeg oherwydd gostyngiad mewn defnydd cymdeithasol a throsglwyddiad teuluol rhwng cenedlaethau.

O ystyried targed presennol Llywodraeth Cymru i ddyblu'r defnydd o'r Gymraeg mewn meysydd megis y gwaith a sefyllfaoedd cymdeithasol, mae hyn yn awgrymu bod atal dirywiad yn y defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ac, yn benodol, trosglwyddo rhwng cenedlaethau o fewn y teulu, yn hanfodol i wella agweddau ymhlyg tuag at y Gymraeg. Dylid ei ystyried yn flaenoriaeth i bolisi iaith Llywodraeth Cymru. Dylai gwneud hyn mewn ardaloedd fel gogledd-orllewin Cymru, sydd ar hyn o bryd yn mynd trwy shifft ieithyddol, fod yn hollbwysig.

Os bydd y patrymau presennol o ddirywiad yn parhau, gallai gostyngiad mewn cysylltiad arwain at agweddau ymhlyg llai ffafriol tuag at y Gymraeg, gan amlygu pwysigrwydd cysylltiad â'r Gymraeg yn y cartref a'r gymuned er mwyn bywiogrwydd y Gymraeg yn y dyfodol.

Mae gwella agweddau ymhlyg tuag at y Gymraeg yn arwyddocaol o safbwynt adfywiad iaith gan fod agweddau ymhlyg yn ymddangos yn well rhagfynegwyr o ymddygiad arferol nag agweddau echblyg, hynny yw, pa mor debygol yw'r siaradwr o ddefnyddio'r iaith. Felly, rydym yn awgrymu y dylai agweddau ymhlyg a'u heffaith bosib ar ddefnydd gael mwy o sylw gan ymchwilwyr a llunwyr polisi'r iaith Gymraeg fel ei gilydd.

Dylai gwaith ar agweddau at iaith yn y dyfodol gynnwys dulliau uniongyrchol ac anuniongyrchol, yn enwedig mewn ardaloedd eraill o Gymru lle mae llai o gysylltiad â'r Gymraeg, ac wrth asesu bywiogrwydd iaith yn gyffredinol.

Mentera
Cynorthwyydd Tîm (Y Ganolfan Wasanaet

Rhannu

*Nod yr adran **Safbwynt** yw sbarduno trafodaeth am Gymru a thrafodaeth am y byd yn Gymraeg. Gallwch gyfrannu erthyglau am unrhyw bwnc – diwylliant, yr iaith, celfyddydau, teledu, radio, yr amgylchedd, twristiaeth, iechyd, gwleidyddiaeth, hanes, addysg, yr economi, yr iaith… unrhyw beth, ewch amdani! **Darllen rhagor***

Ychwanegu safbwynt

← Stori flaenorol



Prydain

***Cabinet Llafur yn "symbolaidd iawn" o'u polisïau i wella symudedd cymdeithasol***

ELIN WYN OWEN

"I bobol fel fi, dydy'r cyfleoedd yna ddim fel arfer yn bosib," meddai Elin Roberts, dadansoddwr geogwleidyddol a pholisi cyhoeddus sy'n byw ym Mharis

Stori nesaf →





Arian a Busnes

### *Pryderon am hidlo pobol ag anableddau neu gyflwr meddygol allan o'r broses recriwtio am swyddi*

CHRIS HAINES, GOHEBYDD SENEDD ICNN

Mae academydd wedi cyfeirio at "rai [arferion] erchyll iawn, iawn ddylen nhw ddim bod yn digwydd"



© 2024 Golwg Cyf

Cefnogir Golwg gyda chymorth ariannol oddi wrth Lywodraeth Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru. Nid yw Llywodraeth Cymru na Chyngor Llyfrau Cymru'n cytuno, o angenrheidrwydd, ag unrhyw farn a fynegir ar y wefan.